



Dyfarniad Coffa D Afan Thomas am Gerddoriaeth

Gwaddolwyd y Dyfarniad ym 1981 o Gronfa Canmlwyddiant i beri cofio enw D Afan Thomas (1881 1928), Cerddor, Cyfansoddwr a Sylfaenydd Cymdeithas Glee Afan yng Nghwmafan, Port Talbot. Gwerth y dyfarniad ar hyn o bryd yw £1500.¹

1. Diben y dyfarniad yw rhoi cymorth ariannol i fyfyrwr cerdd addawol ddatblygu eu haddysg gerddorol drwy astudiaethau neu hyfforddiant pellach yn amser-llawn neu yn rhan-amser mewn sefydliad a gydnabyddir gan UWRET.
2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, bydd y Dyfarniad yn agored i bawb ac fe'i gwneir gan UWRET.
3. Aelodau'r Pwyllgor Dyfarniadau fydd Pennaeth Adran Cerddoriaeth yn y Prifysgolion perthnasol yng Nghymru.
4. Rhoddir cyhoedduswydd i'r dyfarniad bob blwyddyn gan UWRET drwy hysbysebu neu drwy fodd arall, a chyflwynir gwybodaeth lawn wedi ei seilio ar y ceisiadau sy'n dod i law i'r Pwyllgor Dyfarniadau.
5. Mae'r dyfarniad yn agored i ymgeiswyr sy'n ddeunaw oed o leiaf ac a anwyd neu sydd wedi bod yn preswyllo ers deng mlynedd o leiaf yn un o'r ardaloedd daearyddol canlynol a ddangosir yn nhrefn eu blaenoriaeth:
 - (a) Bwrdeistref Afan.
 - (b) Sir Gorllewin Morgannwg heblaw Bwrdeistref Afan.
 - (c) Unrhyw ran arall o Gymru.

Os ceir dau ymgeisydd cydradd eu haeddiant o Fwrdeistref Afan yna caiff y Dyfarniad ei rannu.

6. Delir y Dyfarniad am un flwyddyn, ond gellir ei adnewyddu am flwyddyn neu ddwy flynedd pellach.²
7. Bydd UWRET yn rhoi enwau'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus i Gymdeithas Glee Afan bob tro y rhoddir y Dyfarniad.
8. Os nad oes ymgeisydd teilwng, caiff y Dyfarniad ei ddal yn ôl a'i ychwanegu at y gronfa gyfalaf.
9. Mewn unrhyw gyfansoddiad a gyhoeddir o dan y Rheoliadau hyn, rhaid datgan yn glir bod y cyhoeddi wedi cael cymorth grant drwy Ddyfarniad Coffa D Afan Thomas.

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achrededig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael